PECYN NODDI

Gwobrau Dathlu Busnesau Bach yr FSB 2022

Cyfleoedd Noddi

#FSBAWARDS

fsb CELEBRATING SMALL BUSINESS AWARDS

PECYN NODDI

Ynglŷn â'r FSB

Yr FSB yw sefydliad aelodaeth fusnes mwyaf y DU, wedi'i sefydlu yn 1974, ac yn cynnig llais grymus i'n haelodau sy'n cael ei glywed mewn llywodraethau ar bob lefel. Mae'r FSB yn cynnig gwasanaethau a chynhyrchion busnes anhepgor hefyd a'r cyfle i fod yn rhan o gymuned busnesau bach a hunangyflogedig fwyaf a mwyaf cefnogol y DU.

Mae'r FSB yn cefnogi'r 5.9 miliwn o fusnesau bach a hunangyflogedig y DU, sy'n ffurfio mwy na 99 y cant o holl fusnesau'r sector preifat. Maent yn cyfrannu maint aruthrol at economi'r DU yn ogystal â bod yn ffynhonnell cyflogaeth o bwys; caiff mwy na 16 miliwn o bobl eu cyflogi gan gwmnïau llai.

Ers dechreuad COVID-19, mae'r FSB wedi ymgyrchu ar lawer o faterion canolog a oedd yn effeithio ar ein haelodau, yn anad dim sicrhau bod cymaint o gymorth â phosibl gan y llywodraeth yn cael ei roi yn ei le, mor gyflym â phosibl, ar gyfer cymaint o aelodau a oedd yn cael eu heffeithio gan y pandemig coronafeirws â phosibl.

Ar yr un pryd, bu inni greu a darparu adnoddau ac offer ar draws y DU i helpu aelodau gyda'u goroesiad a chyfleoedd ar gyfer twf newydd yng nghanol byd gwahanol iawn. Dyma'r hyn a gyflawnodd ein gwaith:

- **Bu i 1.2 miliwn o gyflogwyr allu rhoi staff ar ffyrlo**
- **Cymorth incwm ar gyfer 2.7 miliwn o'r hunangyflogedig**
- **500,000 o daliadau TAW wedi'u gohirio**
- **Benthyciadau Adfer wedi'u derbyn gan 1.3 miliwn o fusnesau bach**
- **Grantiau arian wedi'u derbyn gan 900,000 o fusnesau bach.**

PECYN NODDI

Ynglŷn â Gwobrau Dathlu Busnesau Bach yr FSB

Mae Gwobrau Dathlu Busnesau Bach yr FSB yn cydnabod ac yn dathlu'r cyfraniad enfawr y mae busnesau llai a'r hunangyflogedig yn ei wneud i'r DU.

Rydym yn dathlu busnesau bach y DU ac yn cydnabod pob un person, cwmni neu deulu sy'n berchen ar, yn rhedeg neu'n gweithio mewn busnes llai. Hwy yw ein harloeswyr, hwy sy'n sbarduno'r economi a hwy yw asgwrn cefn ein cymunedau. Eu busnesau hwy sy'n ymgorffori'r creadigrwydd a'r cadernid sy'n tanio ffyniant y DU.

Gwobrau Dathlu Busnesau Bach yr FSB yw'r digwyddiad mwyaf o'i fath yng nghalendr busnesau bach. Ar gyfartaledd mae dros 8000 o fusnesau bach yn cofrestru ac yn cymryd rhan yn ein rhaglen wobrwyo.

Mae ein henillwyr yn y DU i gyd yn enghreifftiau nodedig o fusnesau bach llwyddiannus ac amrywiol.

Mae'r digwyddiad olaf yn ein rhaglen o ddigwyddiadau blynyddol, Ffeinal y DU, yn gweld 132 o derfynwyr o 11 categori a 12 ffeinal ddaearyddol o bob cwr o'r DU yn dod at ei gilydd i weld pwy fydd yr enillydd cyffredinol ym mhob categori ar gyfer y DU ond hefyd yn ogystal pwy fydd enillydd Dathlu Busnesau Bach y Flwyddyn yr FSB drwyddo draw.

Ein 12 categori yw:

- Microfusnes Y Flwyddyn
- Busnes Cychwynnol Y Flwyddyn
- Busnes Rhyngwladol Y Flwyddyn
- Busnes Twf Uchel Y Flwyddyn
- Busnes Digidol / e-fasnach Y Flwyddyn
- Arloesi Busnes a Chynnyrch Y Flwyddyn
- Hunangyflogedig / Unig Fasnachwr Y Flwyddyn
- Gwobr Llesiant
- Entrepreneur Ifanc Y Flwyddyn
- Busnes Teuluol Y Flwyddyn
- Gwobr Gymunedol
- Busnes Amgylcheddol / Cynaliadwyedd Y Flwyddyn

Y Ffeinals

Boris Johnson

Eleni fe wnaeth y Gwir Anrhydeddus Boris Johnson AS, y Prif Weinidog annerch y rhai a gyrhaeddodd Ffeinal y DU i'w llongyfarch ar eu llwyddiannau.

Yn agored i entrepreneuriaid...

Mae ein gwobrau'n agored i entrepreneuriaid ar draws y gymuned busnesau bach, sy'n aelodau o'r FSB ac sydd heb fod yn aelodau.

Terfynwyr Ledled y Wlad

Caiff y terfynwyr eu tynnu o'r lleoliadau daearyddol canlynol:

1. Yr Alban
2. Gogledd Iwerddon
3. Cymru
4. Y Gogledd-Orllewin
5. Y Gogledd-Ddwyrain
6. Gorllewin Canolbarth Lloegr
7. Dwyrain Canolbarth Lloegr
8. Llundain
9. Y De-Ddwyrain
10. Dwyrain Lloegr
11. Y De-Orllewin
12. Swydd Efrog a'r Humber



Noddwyr

Roedd y noddwyr ar gyfer ein rhaglen wobrwyo ddiweddaraf, a oedd yn terfynu gyda Ffeinal y DU ar 27 Mai 2021 yn cynnwys Google, Google Chromebooks, Mail Metro Media, Worldpay, Markel Law LLP, Virgin Money a llawer mwy.

Mae manylion ein rhaglen nawdd wedi'u rhestru isod ond gellir llunio pecynnau pwrpasol i chi yn dibynnu ar eich gofynion a'ch cyllideb. Ein pecynnau mwyaf cynhwysfawr sy'n eich cyflenwi â'r sylw mwyaf posibl yw ein nawdd traws y DU sy'n cynnwys holl ffeinals daearyddol y DU a Ffeinal y DU.

Mae noddi Gwobrau Dathlu Busnesau Bach yr FSB yn cynnig cyfle gwych i osod eich brand ochr yn ochr â digwyddiad uchel ei broffil a gaiff ei farchnata'n eang ac sy'n hyrwyddo'r busnesau bach gorau yn y DU. Mae ein gwobrau yn darparu ymgysylltiad a sylw eang ar draws y cyfryngau cymdeithasol a'r cyfryngau traddodiadol.

Bydd yr FSB yn ymroi hefyd i hyrwyddo'r gwobrau yn eang drwy ein gwefannau, e-byst, sianeli cyfryngau cymdeithasol a marchnata uniongyrchol (print ac ar-lein), gyda'ch brand yn y rheng flaen, yn dibynnu ar y pecyn nawdd a gymerir.

Mae ceisiadau'n agor ar gyfer ein gwobrau nesaf wedi'u gosod ar ddiwedd Awst 2021.

Mae'r ffeinals gwobrwyo yn digwydd rhwng Chwefror ac Ebrill gan derfynu gyda Ffeinal y DU ym Mai 2022.

Gyda miloedd o fynychwyr ar lefel ffeinal ddaearyddol a thros 700 o fynychwyr yn ffeinal fawr y DU yn denu busnesau a phobl bwysig iawn o bob maint ac ar draws pob sector, mae pob ffeinal yn addo bod yn ddathliad anhygoel a bydd yn darparu cyfleoedd rhwydweithio a sylw i'ch busnes. Disgwylir eto i'r tocynnau ar gyfer pob un o'r seremonïau gwobrwyo gael eu gwerthu i gyd, gan adeiladu ar y miloedd o fynychwyr a welwn ni bob blwyddyn.

Mae ein pecynnau noddi yn darparu amrywiaeth eang o gyfleoedd, gan ganiatáu i sefydliadau a busnesau o unrhyw faint gymryd rhan a hyrwyddo cymuned busnesau bach y DU.

Cyfleoedd - Prif Noddwr

PRISIAU

Un Ffeinal Ddaearyddol - £5,000
Ffeinal y DU - £70,000
Pob Ffeinal Ddaearyddol a Ffeinal y DU - £125,000

CYN Y DIGWYDDIAD

1. Logo'r cwmni, bio a dolen i wefan y cwmni ar wefan Gwobrau Dathlu Busnesau Bach yr FSB.
2. "Neges gan y prif noddwr" i'w chynnwys ar wefan Gwobrau Dathlu Busnesau Bach yr FSB ar gyfer y ffeinal a noddir.
3. Diolchiadau mewn gweithgaredd marchnata, hysbysebu a hyrwyddo a gynhyrchir ar gyfer y gwobrau ble mae'n briodol.
4. Logo ar bob gwahoddiad a anfonir at y mynychwyr ar gyfer y ffeinal wobrwyo a noddir.

YN Y DIGWYDDIAD

1. Diolch a chydnabyddiaeth yn y seremoni wobrwyo.
2. Logo'r cwmni ar gynllun byrddau/ bordydd y digwyddiad.
3. Diolchiadau yn sgript y digwyddiad gan lywydd y digwyddiad ac ar sgrîn yn ystod y digwyddiad.
4. Enw/logo'r cwmni wedi'i engrafu ar holl dlysau'r enillwyr.
5. Hysbyseb yn rhaglen y gwobrau yn cynnwys proffil tudalen lawn o'r cwmni.
6. Cyflwyno'r wobr gyda llywydd y gwobrau.
7. Seddau amlwg yn y seremoni wobrwyo
8. Anerchiad agoriadol ar lwyfan ar lefel Ffeinal ddaearyddol/y DU.
9. Fideo byr o'r cwmni (dau/dwy funud o hyd) i'w ddangos ym mhob ffeinal.
10. Enw/logo'r cwmni wedi'i engrafu ar dlysau enillwyr gwobrau.
11. Dau docyn cyfarch ynghyd â 10% o ostyngiad ar unrhyw docynnau ychwanegol a brynir ar lefel ddaearyddol a/neu un x bwrdd/bord o 10 o bobl yn seremoni ffeinal y DU mewn lleoliad dethol.

WEDI'R DIGWYDDIAD

1. Set lawn o ffotograffau wedi'u cyflenwi i'w lawrlwytho ar ôl y ffeinal.
2. Hyrwyddo cysylltiedig ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar wefan Gwobrau Dathlu Busnesau Bach yr FSB.

Cyfleoedd - Noddwr Categori

Un Ffeinal Ddaearyddol - £1,100
Ffeinal y DU - £15,000
Pob Ffeinal Ddaearyddol a Ffeinal y DU - £18,000

CYN Y DIGWYDDIAD

1. Logo'r cwmni, bio a dolen i wefan y cwmni ar wefan Gwobrau Dathlu Busnesau Bach yr FSB.
2. Diolchiadau mewn gweithgaredd marchnata, hysbysebu a hyrwyddo a gynhyrchir ar gyfer y gwobrau ble mae'n briodol.

YN Y DIGWYDDIADAU

1. Cyhoeddi enillydd y categori a noddir.
2. Y cyfle i uwch-gynrychiolydd o'ch cwmni gyflwyno'r wobr a chael tynnu ei lun gydag enillwyr y categori.
3. Logo ar sgrin a diolchiadau yn y sgript yn ystod eich categori noddi.
4. Enw/logo'r cwmni wedi'i engrafu ar dlws enillydd y wobr.
5. Rhestru yn y rhaglen ar lefel ddaearyddol a hysbyseb liw un dudalen ar gyfer rhaglen Ffeinal y DU.
6. Dau docyn cyfarch ynghyd â gostyngiad o 10% ar unrhyw docynnau ychwanegol a brynir ar gyfer noddi ar lefel ddaearyddol a/neu bedwar tocyn cyfarch ar gyfer noddi ar lefel Ffeinal y DU.

WEDI'R DIGWYDDIAD

1. Hyrwyddo cysylltiedig ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar wefan Gwobrau Dathlu Busnesau Bach yr FSB.

Un Ffeinal Ddaearyddol - £550
Ffeinal y DU - £12,500

Cyfleoedd - Noddwr Diodydd Derbyniad

CYN Y DIGWYDDIAD

1. Logo a hyperddolen ar wefan Gwobrau Dathlu Busnesau Bach yr FSB.
2. Diolchiadau mewn gweithgaredd marchnata, hysbysebu a hyrwyddo a gynhyrchir ar gyfer y gwobrau ble mae'n briodol.

YN Y DIGWYDDIAD

1. Noddi llwyr-gyfyngedig gydag enw'r cwmni yn gysylltiedig â'r derbyniad h.y. Gwobrau Dathlu Busnesau Bach yr FSB 2022 Derbyniad Diodydd Croesawu wedi'i noddi gan -
2. Diolchiadau yn sgript y digwyddiadau ac ar sgrîn ym mhob ardal gwobrau a noddir.
3. Dau docyn cyfarch ynghyd â gostyngiad o 10% ar unrhyw docynnau ychwanegol a brynir ar lefe ddaearyddol a/neu bedwar tocyn cyfarch ar lefel Ffeinal y DU.
4. Rhestru yn y rhaglen ar lefel ddaearyddol a hysbyseb liw un dudalen ar gyfer rhaglen Ffeinal y DU.

PECYN NODDI

Yn dymuno cymryd rhan? Cysylltwch â:

fsbawards@fsb.org.uk

#FSBAWARDS

fsb CELEBRATING SMALL BUSINESS AWARDS